**Llythyr gan Rhondda Cynon Taf:**

## Ymgynghoriad Trafnidiaeth Ysgol

Fel rydych chi'n gwybod, cytunodd y Cyngor i gynnal ymgynghoriad i adolygu ei ddarpariaeth Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol ar gyfer plant a phobl ifainc yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r cynnig yn amlinellu Polisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol newydd sy'n parhau â rhan o'r ddarpariaeth ddewisol ac yn darparu cludiant i ysgolion cynradd, uwchradd a cholegau, boed y rheiny'n ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg neu'n Ysgolion Ffydd, yn unol â'r meini prawf statudol o ran pellter. Byddai unrhyw bolisi newydd yn cael ei roi ar waith o ddechrau blwyddyn academaidd 2025/2026.

Roedd yr ymgynghoriad yn wreiddiol ar agor rhwng 27 Tachwedd 2023 a 5pm ar 8 Ionawr 2024.

Mae'r Cyngor yn cydnabod arwyddocâd y cynnig i ddisgyblion sy'n defnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol ar hyn o bryd, ac a fydd yn ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae ymgynghoriad estynedig yn rhoi cyfle pellach i'r rhai a fydd o bosibl yn cael eu heffeithio gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Felly, mae'r Cyngor wedi penderfynu ymestyn yr ymgynghoriad am gyfnod pellach o dair wythnos rhwng dydd Iau 18 Ionawr 2024 a 5pm ar ddydd Iau 8 Chwefror 2024.

Mae manylion y cynnig a'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad i'w gweld yma: Ymgynghoriad ar Bolisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

Does dim angen i unrhyw un sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma'n barod gyflwyno ymateb ychwanegol oni bai eu bod nhw'n dymuno gwneud hynny.

Cofion Cynnes

**Stephen Williams**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth**